

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
TROSOLWG A CHRAFFU
GWYNEDD
2013-14**

Effaith Trosolwg a Chraffu ar fywyd yng Ngwynedd

A. Pwyllgor Craffu Corfforaethol

Cadeirydd: Cyngorydd Simon Glyn

Is-gadeirydd: Cyngorydd Dyfrig Jones

Cylch Gorchwyl

- Strategaeth Gorfforaethol
- Partneriaethau
- Ymgysylltu
- Trawsnewid Busnes
- Effeithlonrwydd Gwasanaethau
- Gwasanaethau Yfory
- Cytundeb Canlyniadau
- Gweithlu
- Gofal Cwsmer
- Hawl Galw i Mewn ar faterion y Pwyllgor Archwilio

1. **Ymchwiliadau Craffu**

Bu gwaith ar dri Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn. Bu'r Ymchwiliadau yn edrych mewn cryn fanylder ar y meysydd dan sylw, yn ystyried y cyd-destun polisi, yn derbyn tystiolaeth yn ceisio barn arbenigol ac yn cyfweled budd-ddeiliaid allweddol cyn dod i unrhyw gasgliadau

AY1 – Meddylfryd Systemau

Beth wnaeth y Craffwyr

Sefydlwyd yr Ymchwiliad i geisio ateb y cwestiynau yma:

A) Beth oedd effaith y ddau gynllun peilot yn y Gwasanaeth Cynnal a Chadw (Tîm Ymyrraeth) a'r Gwasanaeth Digartrefedd ar bobl Gwynedd?

B) A ydyw wedi gwella gwasanaeth i ddefnyddwyr?

C) A ydyw wedi gwireddu arbediad?

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cyngorydd Peredur Jenkins, yr Aelod Cabinet Adnoddau

1	Mae aelodau'r Ymchwiliad yn argymhell ein bod yn ymestyn Meddylfryd Systemau ar draws y Cyngor	✓
2	Sicrhau dealltwriaeth drwyadl yr Aelodau Cabinet ac Uwch Reolwyr o egwyddorion Meddylfryd Systemau er mwyn gwireddu'r potensial i ail-gynllunio gwasanaethau'r Cyngor er budd y cwsmer	✓
3	Darparu cefnogaeth lawn i gynnal y 'day job' tra bo'r swyddogion yn gweithio ar gynllun meddylfryd systemau.	✓
4	Datblygu'r cynllun ar draws y Cyngor trwy daro balans rhwng gwneud y gwaith yn fewnol a chael mewnbwn allanol ac annibynnol yn ôl yr angen.	✓
5	Bod yr wybodaeth a gafwyd gan y cwsmeriaid a'r partneriaid yn cael ei ystyried yn drylwyr er mwyn asesu natur y galw a gwir anghenion y cwsmer.	✓
6	Bod y mesuryddion priodol yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn medru asesu llwyddiannau a phroblemau gyda gweithredu'r cynllun ar draws y Cyngor gan adrodd ar unrhyw faterion o bryder i'r Cabinet.	✓
7	Mae'r broses hyd yn hyn wedi bod yn rhy araf. Mae'n hanfodol sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn gyflymach yn y dyfodol.	✓

8	Bod gwaith yn cael ei wneud ar fyrder i asesu costau'r cynllun er mwyn adnabod beth yw maint y gwariant ac unrhyw arbedion sydd wedi deillio ohono hyd yn hyn ac i ystyried tafluniad dros gyfnod oes y Cyngor yma.	✓
----------	--	---

Effaith Disgwyliedig

Byddai cyflawni argymhellion yr Ymchwiliad yn cyfrannu'n sylweddol at gynnal ansawdd gwasanaethau a'u gwella er gwaethaf lleihad mewn adnoddau ac mewn rhai sefyllfaoedd yn gwneud arbedion.

AY2 – Agenda Wledig

-

Beth wnaeth y Craffwyr

Nod yr Ymchwiliad oedd:

- Adnabod enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus i gynyddu cynhwysiad yng Ngwynedd
- Nodi ac ystyried enghreifftiau o arfer da y tu allan i'r Sir
Cyflwyno argymhellion i Arweinydd y Cyngor weithredu arnynt yn uniongyrchol nei fel partner i wella cynhwysiad.

Argymhellion

1	Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd y Cyngor yn fan cychwyn da ac mae angen sicrhau bod Aelodau'r Cabinet yn rhoi blaenoriaeth i gasglu barn a thystiolaeth gan ddinasyddion ac ystyried yn ofalus effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.	✓
2	Mae angen i chi gytuno gyda Llywodraeth Cymru ar gyfeiriad a gweithrediad Strategaeth Economaidd a Gofodol i Wynedd a Môn fel man cychwyn ar gyfer ariannu adeiladwaith (i gynnwys priffyrdd a chludiant) fel y prif yrrwr i gynllunio mynediad at wasanaethau ar draws y Sir.	✓
3	Mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos yn glir ac yn fuan beth yw'r ffordd ymlaen. Cafwyd peth tystiolaeth gan yr Ymchwiliad bod trigolion Gwynedd yn barod i ystyried newidiadau i'w gwasanaethau, ond mae angen bwrw iddi ar fyrder i ddiwallu ofnau ac i gynllunio a darparu gwasanaethau o safon uchel mewn ffordd amgen.	✓
4	Targedwch fusnesau preifat a thrydydd sector sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn y cymunedau er mwyn eu cefnogi i ddatblygu gwasanaeth siopa hwylus fel canolbwynt i'r gymuned leol, gan anelu iddynt ddod yn hunangynhaliol erbyn 2016 cyn diwedd oes Cynllun Strategol y Cyngor yn 2017. Yna gallwch gynnal asesiad manwl er mwyn sefydlu ffordd ymlaen ar gyfer Cynllun Strategol dilynol Gwynedd.	✓
5	Mae angen cynllunio cludiant cyhoeddus ar ddwy haen: a) Cytuno gyda Llywodraeth Cymru ar Ganolfannau Gwasanaeth ar draws y Sir ac yn rhanbarthol, gan gynllunio cludiant cyhoeddus i gysylltu â phrif leoliadau poblogaeth Gwynedd. b) Mae angen i'r Cyngor ail-lunio gwasanaethau o'r prif leoliadau poblog i ardaloedd gwledig. Yn unol â'r cyfeiriad yn Adroddiad Williams, ystyriwn mai rôl cynghorau cymuned are u newydd wedd yw'r gwaith yma ac y dylid cynnal tri chynllun arloesol lle bod grŵp o gynghorau yn dangos parodrwydd i weithredu ar hyn rhwng nawr a 2016. Yna cynnal asesiad manwl o'r tri chynllun.	✓
6	Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu datrysiaid brys dros dro i ganfyddiad y trigolion lleol am ddiffyg diogelwch y gwasanaeth iechyd ym Mhen Llŷn ar benwythnosau.	✓
7	Ymchwiliwch ymhellach i weld a oes tystiolaeth bod cynnal gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill 'o bell' yn creu problemau iechyd mwy dwys neu anawsterau	✓

	eraill yn y tymor canolig a hir dymor i ddefnyddwyr gwasanaeth. Os oes tystiolaeth o hyn yn dod i'r amlwg, yna, gwnewch ddarpariaeth briodol i liniaru'r effaith wrth gynllunio gwasanaethau.	
8	Adeiladwch ar y ddarpariaeth gyfredol sy'n bodoli yng Ngwynedd i wella mynediad i wasanaethau drwy adnabod ac asesu ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan y Trydydd Sector a'r Sector Breifat ar draws y Sir. Cynlluniwch wasanaethau amgen dros gyfnod o dair blynedd neu fwy drwy roi arweiniad a chefnogaeth briodol iddynt.	✓
<p><u>Effaith Disgwyliedig</u></p> <p>Bydd gweithredu'r argymhellion yn cyfrannu'n bositif tuag at wella cynhwysiad a mynediad i wasanaethau i drigolion y Sir mewn ardaloedd gwledig a threfol.</p>		

AY3 – Caffael Cynladwy

Beth wnaeth y Craffwyr

Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet Addysg i ystyried yn benodol addasrwydd polisiâu; cydymffurfiaeth â'r polisiâu hynny; effaith pecynnu gwaith ar gytundebau dan £50k; ymarfer dda yn y maes.

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd John Wyn Jones, Yr Aelod Cabinet dros yr Economi

1	Dylid cytuno beth yw uchelgais y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy a datblygu polisi a chanllawiau syml a chlr i staff i wireddu hyn ar draws y Cyngor ar sail ymarfer dda	✓
2	Dylid datblygu trefniadau caffael sy'n addas i gyflawni uchelgais y Cyngor ym maes caffael cynaliadwy a sicrhau ymrwymiad i'r trefniadau hynny ar y lefel uchaf	✓
3	Dylid adeiladu ar yr ymarfer da sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor i adnabod mwy o gyfleoedd cydweithio caffael rhwng gwasanaethau gan uchafu'r buddion posib	✓
4	Dylid sefydlu cofrestr cyflawn o holl gyfleoedd tendro'r Cyngor er mwyn cynnig gwell trosolwg o'r maes	✓
5	Dylid datblygu mesuryddion addas ac ystyrlon er mwyn mesur effaith ariannol gwariant y Cyngor a'r effaith ar drigolion Gwynedd	✓
6	Dylid adolygu trefniadau hyfforddiant i staff sy'n ymwneud â chaffael i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r ymrwymiad, cydymffurfiaeth gweithredol a gwell adnabyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael er budd trigolion Gwynedd	✓
7	Dylid diffinio'n fwy eglur rôl yr Uned Caffael Corfforaethol o fewn trefniadau caffael y Cyngor er mwyn sicrhau y gorau o'r adnodd a chryfhau trefniadau caffael y Cyngor	✓
8	Dylid gwirio ai trefniadau datganoledig cyfredol y Cyngor yw'r trefniadau mwyaf addas i wireddu uchelgais y Cyngor yn y maes	✓
9	Dylid adolygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn trefniadau caffael y Cyngor yng nghyddestun y ddogfen <i>Gosod contractau gwasanaethau cyhoeddus a'r iaith Gymraeg</i> a chynnwys unrhyw argymhellion yn y Strategaeth Caffael a'r Polisi Caffael Cynaliadwy newydd a datblygu trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth	

Effaith Disgwyliedig

Bydd gwireddu'r argymhellion yn fodd i wella'r trefniadau caffael gan uchafu'r budd i drigolion Gwynedd.

2. Gwaith y Pwyllgor

Nodir isod y materion sydd wedi eu trafod yn y pum cyfarfod pwyllgor yn ystod 2013/14

AP1 Ymgysylltu

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a Chynllun Ymgysylltu drafft.

Rhodddwyd ystyriaeth i ba mor llwyddiannus oedd y Cyngor o ran ymgysylltu gyda'r cyhoedd dros y blynnyddoedd diwethaf a gwnaed argymhellion i wella.

Argymhellion

Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet:

- Rhoi eglurhad clir a chryno i gynghorwyr o arfer da ynglŷn â phresenoldeb swyddogion mewn cyfarfodydd cyhoeddus
- Datblygu'r gwaith da a wneir drwy *Rhaeadr* (y ddolen wybodaeth electronig i gynghorwyr) drwy annog mwy o Adrannau'r Cyngor i'w ddefnyddio.
- Cynnal cynllun peilot gyda'r Adran Rheoleiddio i wella'r drefn o rannu gwybodaeth ynglŷn â chynlluniau a gwaith yn lleol.
- Rhoi arweiniad i bob Aelod Cabinet ar sut i gysylltu'n well gyda chynghorwyr lleol wrth wneud gwaith yn lleol.
- Ychwanegu un o'r cynghorwyr at y Bwrdd Prosiect Ymgysylltu
- Ystyried sut orau i wella'r berthynas rhwng cynghorwyr a swyddogion o ran cydweithio a rhannu gwybodaeth.
- Cytuno gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y rôl orau i gynghorwyr wrth ymgysylltu.

Effaith Disgwyliedig

Cyfrannu at roi pobl Gwynedd yn y canol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae dau o'r aelodau craffu yn cynnal gwaith pellach gyda'r Aelodau Cabinet Amgylchedd a Chynllunio er mwyn gwella'r ymgysylltu'n lleol ar faterion rheoleiddio a chynllunio.

AP2 Strategaeth Ariannol/Arbedion

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd pa mor llwyddiannus oedd cyflawniad y Strategaeth a mesur effaith gwireddu'r arbedion ar drigolion Gwynedd trwy herio adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ym mis Hydref 2013, Ionawr a Mawrth 2014 a chyflwynwyd argymhellion i'r Aelod Cabinet.

Argymhellion

Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet:

- Os yw'n fwriad gennych ofyn i ysgolion ddarganfod arbedion effeithlonrwydd, a wnewch chi ystyried rhoi targed mwy heriol i'r ysgolion hynny sy'n dal balansau uchel yn hytrach na chyflwyno targed unffurf i bawb.
- Llunio Cynllun Ymgysylltu drafft ar y Cynlluniau Arbedion i'w ystyried gan y Bwrdd Prosiect Ymgysylltu ar fyrder.
- Rhoi pwyslais o'r newydd ar drafod syniadau am arbedion effeithlonrwydd gyda staff yn is i lawr.

Effaith Disgwyliedig

Mae pwysau cynyddol ar wasanaethau'r Cyngor yn sgil yr arbedion ariannol. Bydd gweithredu ar yr argymhellion yn cyfrannu tuag at gynllunio'r arbedion yn ofalus ac ymgysylltu'n effeithiol gan roi ystyriaeth fanwl i'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau yn arbennig bobl bregus.

AP3 Adroddiadau Perfformiad

Beth wnaeth y Craffwyr

Cyfeiriwyd y materion canlynol ymlaen am ystyriaeth aelodau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn eu Cyfarfodydd Paratoi:

- **Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru (Caff1a)**
Mae Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru wedi dod i ben a nodwyd pryder sut y byddai'r Cyngor yn darganfod yr arbedion a glustnodwyd i'r Partneriaeth
- **Talu Anfonebau o fewn 14 diwrnod (CD6.05)**
 - Nodwyd bod un anfoneb heb ei thalu am gyfnod maith oherwydd bod aelod o staff perthnasol i ffwrdd o'r gwaith
 - Ystyried newid y mesurydd i fesur yr anfonebau sydd wedi methu'r targed o gael eu talu o fewn 14 diwrnod
- **Ateb llythyrau o fewn 15 diwrnod gwaith (DGCCC03)**
 - Mae angen sefydlu trefn a gofyn i'r Aelod Cabinet pryd byddai perfformiad ateb ebyst yn cael ei fesur

Penodwyd aelodau o'r Pwyllgor Craffu i wyntyllu'r materion gyda'r Aelodau Cabinet Economi, Adnoddau a Gofal Cwsmer.

Argymhellion

Diolchwyd i'r Aelodau Cabinet a gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Bod yr Aelod Cabinet Economi yn canolbwyntio ar uchafu ymdrechion caffael i gadw'r budd yn lleol.
- Bod yr Aelod Cabinet yn ystyried dulliau o uchafu perfformiad gan gynnwys prosesu taliadau rhai darparwyr yn ganolog.
- Bod yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer yn cyflymu'r gwaith o gael system dracio e-byst yn ei lle gan nodi erbyn pryd y bydd yn weithredol.

Effaith Disgwyliedig

Trwy fonitro perfformiad yr Aelodau Cabinet ar eu Cynlluniau Busnes, mae hyn yn cyfrannu at sicrhau eu bod yn atebol yn gyhoeddus i drigolion Gwynedd am eu cynlluniau gwaith blynyddol. Yn benodol yn y tri mater a wyntyllwyd yn fanwl byddai gwireddu'r argymhellion yn gwella'r budd i'r economi leol a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor trwy dderbyn taliadau ac ymatebion i ymholiadau'n fwy prydlon.

AP4 Partneriaethau a Chydweithio

Beth wnaeth y Craffwyr

Rhodddwyd ystyriaeth i'r sefyllfa o gydweithio gydag Ynys Môn o safbwynt

- Cynllun Integredig Sengl Gwynedd ac Ynys Môn 2013-17
- Ymateb cychwynol Cyngor Gwynedd i 'Adroddiad Williams'

Cynllun Integredig Sengl

Ystyriwyd dogfen drafft y Cynllun Integredig Sengl yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2014. Yn ogystal â'r Adroddiad drafft fe ystyriwyd y Cynllun Gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu. Gofynnwyd i Arweinydd y Cyngor ddangos sut y byddai gwireddu'r Cynllun yn cael effaith er gwell ar fywydau trigolion Gwynedd, a sut y byddai modd mesur hynny. Gwnaed rhai awgrymiadau i'r Arweinydd eu hystyried.

Cydweithio/Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhodddwyd ystyriaeth i ddogfen a gyflwynwyd gan Arweinydd y Cyngor yn amlinellu sylwadau ac ymatebion posibl i brif argymhellion Adroddiad Williams, ac fe gafwyd gwybodaeth gryno am y prif bartneriaethau y mae'r Cyngor yn aelodau ohonynt.

Argymhellion

- Gofynnwyd i Arweinydd y Cyngor i geisio cael eglurder am oblygiadau gweithredu ar argymhellion Adroddiad Williams
- I geisio cael gwybodaeth am yr amserlen
- I rannu'r manylion gyda holl aelodau'r Cyngor pan ar gael ac i gynnal trafodaeth yn fuan
- Ystyried sefydlu Gweithgor neu gynnal Ymchwiliad Craffu pan yn amserol

Effaith Disgwyliedig

Cynnal gwasanaethau o ansawdd uchel i drigolion Gwynedd yn ystod cyfnod ansicr a pharhau i gynnal a gwella'r gwasanaethau wrth gydweithio gydag Ynys Môn ac eraill.

AP5 Gwynedd Amdani

Beth wnaeth y Craffwyr

Casglwyd gwybodaeth am gynllun *CYD Cymru* sef cynllun cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei weithredu gan Gyngor Sir Bro Morgannwg ar draws Cymru. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i unigolion neu deuluoedd sy'n byw yng Nghymru i gofrestru er mwyn ystyried cynigion am brisiau ynni (trydan a nwy) rhatach.

Ystyriodd y Craffwyr fanylion Cynllun CYD Cymru, Braslun o Gynllun Cyfathrebu ynghyd â chyflwyniad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol ar gynllun sy'n rhan o brosiectau sy'n cael eu harwain gan y Prif Weithredwr dan y faner 'Cyngor Ni'.

Argymhellion

- Bod Dolen Electronig yn cael ei gosod mewn lle amlwg ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl gyda chyswllt i wefan *Cyd Cymru*.
- Bod y Grŵp Prosiect *Cyngor Ni* yn rhoi diweddariad i'r craffwyr ymhen 6 mis.
- Bod y Grŵp Prosiect yn rhoi sylw i eiddo'r Cyngor gan gynnwys ysgolion.
- Cadarnhau gyda *Cyd Cymru* bod y Cynllun yn agored i bob un o drigolion Gwynedd yn ddiwahân.

Effaith Disgwyliedig

Lleihau costau ynni i drigolion Gwynedd

AP6 Trefniadau'r Pwyllgor Cynllunio

Beth wnaeth y Craffwyr

Cynhaliwyd arolwg i asesu lefel pryderon am weithreid y trefniadau o uno tri phwyllgor cynllunio yn un. Roedd y mwyafrif llethol yn hapus gyda'r trefniadau newydd.

Argymhellion

- Penderfynwyd peidio rhaglennu'r eitem am y tro.

Effaith Disgwyliedig

Sicrhau bod trefniadau'r Cyngor i ystyried materion cynllunio'n gweddu i ofynion y cyhoedd.

AP7 Gweithlu'r Cyngor

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd argraffiadau bod morâl y staff yn isel yn wyneb y sefyllfa ansicr o safbwynt arbedion ariannol a'r lleihad tebygol mewn adnoddau a cytunwyd bod angen edrych ar hwn o safbwynt tair agwedd wahanol:

- Dangosydd Salwch
- Gweithio'n Hyblyg
- Ymddeoliadau

Ystyriwyd adroddiad y Panel Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol ac Adroddiad Arolwg Staff 2013..

Argymhellion

- Bod yr Adran Adnoddau Dynol yn parhau i gofnodi a chefnogi'r gwaith o leihau lefel absenoldebau yn ei gyfanrwydd gan roi sylw manwl i'r categori salwch 'arall' er mwyn medru gwneud dadansoddiad mwy cyflawn.
- Bod yr Adran yn rhannu adroddiad yr Arolwg Staff gyda'r Aelodau bob tro pan fo'n cael ei gynnal.

Effaith Disgwyliedig

Sicrhau bod y Gweithlu mor iach a ffyniannus â phosibl er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i drigolion y Sir dan yr amgylchiadau heriol cyfredol.

B. Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

Cadeirydd – y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Is-gadeirydd – Y Cynghorydd Peter Read

Cylch Gorchwyl

- Pobl Hŷn
- Oedolion
- Teuluoedd
- Plant a Phobl Ifanc
- Addysg
- Llwybr i gyflogaeth
- Iechyd.

1. Ymchwiliadau Craffu

Bu gwaith ar ddau Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn:-

BY1 Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg

Beth wnaeth y Craffwyr

Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet Addysg i ystyried:-

- Pam bod **pegynnu** yn digwydd ym mherfformiad Cyfnod Allweddol 4 ysgolion?
- Safonau cyflawniad mewn **Mathemateg** ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+
- Pam bod ansawdd safonau a darpariaeth **Cyfnod Allweddol 3** yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr Awdurdod?
- Meithrin dealltwriaeth lawnach o **berfformiad dysgwyr Prydau Ysgol am ddim** a'r graddau y mae cyflawniad y grwp yma o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad Cyfnod Allweddol 4
- Effaith **arweinyddiaeth** ar berfformiad ysgolion a'r modd y caiff sgiliau arwain eu methrin a'u datblygu.

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg

1	Dylid datblygu cynigion pendant i gadarnhau rôl allweddol arweinyddiaeth addysgol o fewn ysgolion gan benaethiaid, uwch dimau rheoli ac arweinyddion adran, a chefnogi gwaith i feithrin hyder i gyflawni'r rôl	✓
2	Rhaid rhoi sylw ar fyrder i ddatblygu dulliau addysgu rhagorol mewn dysgu Mathemateg o fewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y sir a gyda phartneriaid eraill	✓
3	Dylid gosod disgwyliad clir o ran system tracio cyrhaeddiad, canllawiau monitro a'r defnydd a wneir o'r wybodaeth ym mhob ysgol yn y sir, yn cynnwys wrth bontio rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd	✓
4	Dylid ysbrydoli a chodi disgwyliadau'r Awdurdod, Llywodraethwyr, staff a disgyblion am gyraeddiadau plant y sir fel bod modd cyrraedd yn uwch na'r targedau sydd wedi eu gosod ar gyfer TL2+	✓
5	Dylai'r Awdurdod ddatblygu model o welliant parhaus gyda chymorth a her effeithiol i wella ysgolion	✓
6	Dylid amlygu a sefydlu cyd-ddealltwriaeth eang ar rôl yr Awdurdod ac, yn benodol, ei berthynas gydag Ysgolion o ran y cyfrifoldeb dros ansawdd a rhyddhau arweinyddion ysgol i roi sylw i ansawdd	✓
7	Dylid ail-edrych ar y math o gefnogaeth a roddir i rôl llywodraethwyr er mwyn ei wneud yn fwy addas i bwrpas yng nghyd-destun y rhaglen ansawdd	✓
8	Dylid sicrhau trefn reolaidd i ddod â llais disgyblion ar ansawdd addysg i fewn i sylw llywodraethwyr yn eu cyfarfodydd ac i sylw'r Awdurdod	✓

Effaith Disgwyliedig

Gan bod yr argymhellion oll wedi eu derbyn gan yr Aelod Cabinet, a bod y gwaith yn cael ei sylw yn y Prosiect Codi Safonau Addysg yn y Cynllun Strategol, disgwylir adroddiad yn ôl i gyfarfod Mehefin, 2014 yn adrodd cynnydd ar yr argymhellion hyn er sicrhau cynnydd mewn ansawdd addysg

BY2 – Mae ail Ymchwiliad Craffu yn y Maes Gofal wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn. Y briff yw i roi sylw i:-

- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rhyddhau o safbwynt sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion hŷn, gan adnabod ac amlygu arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.

- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor o ran asesu, cynllunio a darparu gofal integredig a phriodol i gleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
- Rôl mudiadau Trydydd Sector o safbwynt cefnogi cleifion hŷn i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.
- Adnabod enghreifftiau o arferion da o ardaloedd eraill ac amlygu'r rhai y gellir eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yng Ngwynedd / Gogledd Cymru.
- Llunio cyfres o argymhellion gwella i'w cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwynedd a mudiadau Trydydd Sector er mwyn ymateb i brif ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwiliad.

Disgwylir iddo adrodd yn ôl yn Haf 2014

2. Gwaith y Pwyllgor

Nodir isod y materion sydd wedi eu trafod yn y pum cyfarfod pwyllgor yn ystod 2013/14

<u>BP1 Gofal Ysbaid</u>
<p><u>Beth wnaeth y Craffwyr</u></p> <p>Derbyn a herio adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal gan wyntyllu rhai problemau ac anawsterau a wynebir wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddwyd sylw penodol i:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anawsterau i ddarparu gofal ysbaid i unigolion gyda phroblemau cof • Cyd-gomisiynu gofal ysbaid ar gyfer anghenion nyrsio • Diffyg adnodd ar gyfer gofal ysbaid mewn ardaloedd sydd ymhell o'r brif ddarpariaeth, ee ym Mhen Llŷn • Anghenion gofalmwyr sy'n gofalu am unigolion gydag awtistiaeth a phobl gydag anawsterau iechyd meddwl • Yr angen am gefnogaeth a hyfforddiant i ofalmwyr
<p><u>Argymhellion</u> - Nid oedd unrhyw argymhellion penodol gan y Craffwyr i'r Cyngorydd R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal ond rhoddwyd her i'r Gwasanaeth ymateb i'r angen am fwy o ddarpariaeth gofal ysbaid mewn lleoliadau addas a hwylus o fewn y Sir a hefyd cynlluniau i gyfarch anghenion unigolion gyda dementia</p>
<p><u>Effaith Disgwyliedig</u></p> <p>O gael ei graffu, disgwylir gweld cynigion amgen ar gyfer gofal ysbaid yn cael eu datblygu</p>

P2 Dryll y Car, Abermaw

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd adroddiad yr Aelod Cabinet ar opsiynau ar gyfer dyfodol gwasanaeth 8 gwely mewnol is-aciwt yn Dryll y Car, Abermaw. Holwyd yr Aelod Cabinet am y rhesymeg dros y penderfyniad i'w gau ac am y defnydd o'r adnoddau a fyddai'n cael ei arbed mewn gwasanaethau cymunedol

Dim Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal

Effaith Disgwyliedig

Tra'n cydymdeimlo gyda theuluoedd oedd wedi arfer derbyn gwasanaeth yno, derbyniwyd barn yr Aelod Cabinet a'r Aelod Lleol ar yr opsiwn gorau a'r ail-gyfeirio adnoddau i foderneiddio darpariaeth

BP3 Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg Estyn

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyried y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn a luniwyd gan yr Awdurdod a oedd yn ymateb i 6 argymhelliad Estyn yn dilyn eu harolwg o Wasanaeth Addysg Gwynedd

Rhodddwyd sylw penodol i:-

- Yr her o wireddu'r ymrwymiad o ran lleihau llefydd gweigion ar draws y sir
- Yr her o gyrraedd y deilliannau uchelgeisiol o ran cyraeddiadau disgyblion fel y targed TL2+
- Pryder nad oedd canrannau canlyniadau o reidrwydd yn adlewyrchu ansawdd addysgu gan bod cymaint o rieni yn talu am wersi preifat
Pryder am wendid mewn sgiliau ysgrifennu

Dim Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg

Effaith Disgwyliedig

Derbyniwyd a nodwyd cynnwys y Cynllun Gweithredu gan edrych ymlaen i weld cynnydd yn y gweithredu arno yn cael ei amlygu mewn adroddiadau cynnydd yng nghyd-destun yr Ymchwiliad Craffu ar Ansawdd Addysg

BP4 Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol

Beth wnaeth y Craffwyr

Rhodddwyd sylw i hwn ar ddau achlysur:-

- (a) Mehefin 2013 - Ystyriwyd adroddiad yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn amlinellu ei brif ganfyddiadau ar argymhellion ynglŷn â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol Tra'n nodi boddhad gyda mwyafrif yr adroddiad, rhodddwyd sylw penodol i bryderon am
- Y berthynas rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd sydd yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth i drigolion
 - Wendidau yn nhrefniadau'r adran o ddychwelyd galwadau ffôn
 - Gostyngiad ym mhrydlondeb adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal
 - Yr angen i fonitro cynnydd addysgol plant y mae'r Cyngor yn rhiant corfforaethol iddynt
 - Bwysigrwydd cyfeirio at anghenion iaith plant mewn gofal
 - Yr angen am ddarpariaeth llety sy'n addas i gyfarch amrediad o anghenion
- (b) Chwefror 2014 – Ystyriwyd ymateb yr Aelod Cabinet i adroddiad yr Arolygiaeth Gofal Cymdeithasol ar y meysydd sydd angen gwella.
Rhodddwyd sylw penodol i:-
- Sefyllfa unigolion sy'n gorfod derbyn gofal preswyl yn bell o'u cartrefi
 - Prinder darpariaeth ar gyfer Gofal Ysbaid
 - Y gost y mae'r Cyngor yn wynebu wrth orfod dygymod gyda chostau gofal poblogaeth hyn sydd yn ymddeol i'r ardal
 - Yr angen i edrych ar a chynyddu ymwybyddiaeth o'r drefn Taliadau Uniongyrchol

Dim Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cyngorydd R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal

Effaith Disgwyliedig

Tynnwyd sylw at nifer o feysydd lle mae angen i berfformiad y Gwasanaeth wella er lles trigolion

BP5 Adolygiad Dechrau i Ddiwedd Plant

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd cyflwyniad ac adroddiad ar adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaeth Plant "O'r dechrau i'r diwedd" gan roi sylw i opsiynau gwahanol a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer cyfeiriad y Gwasanaeth i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd:-

- bod beirniadaeth genedlaethol ar ddarpariaeth gofal all-sirol i blant oherwydd y gost a'r niferoedd a phryderwyd bod pellter oddi wrth y teulu yn medru dwysau problemau'r plant drwy eu dieithrio oddi wrth deuluoedd.
- bod gorwario ar leoliadau all-sirol wedi bod yn broblem yn y gorffennol ac oni ddylai'r awdurdod fod wedi sefydlu darpariaeth ei hun bellach i oresgyn y broblem.

Dim Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifainc

Roedd y pwyllgor yn awyddus i weld bod cynllun gweithredu yn ei le i roi buddiannau'r prosiect ar waith

Effaith Disgwyliedig

Disgwylir y bydd y prosiect yn arwain at sefydlu Tîm Trothwy Gofal, lleihau'r gofynion biwrocraatiaeth a gweithredu'n aml-asiantaethol ar draws haenau gwasanaeth

BP6 Rhiantu Corfforaethol

Beth wnaeth y Craffwyr

Holwyd yr Aelod Cabinet ar y cwestiynau a ganlyn:-

(a) Nifer y plant mae'r Cyngor yn gweithredu fel rhiant corfforaethol iddynt a'r trefniadau ar gyfer ysgwyddo'r cyfrifoldeb yma

(b) Sut mae trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd â rhestr Wirio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer rôl rhiant corfforaethol

(c) Trefniadau cychwyn trafodaeth a phlant mewn gofal ac ymateb i'w safbwyntiau

(d) Trefniadau i rannu cyfrifoldebau ymarferol ar draws aelodau a swyddogion y Cyngor

(e) Aelodaeth, cyfrifoldebau a threfniadau'r Panel Rhiant Corfforaethol gan roddi sylw i ymarfer da

(f) Mesur llwyddiant y Cyngor fel rhiant corfforaethol – yr asesiad cyfredol o'r gwaith.

Argymhellion gan y Craffwyr

Dim argymhellion penodol

Effaith Disgwyliedig

Bydd y Pwyllgor Craffu yn edrych ymlaen i dderbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gyda chyfrifoldebau'r Cyngor yn y maes hwn ac yn derbyn adroddiad penodol ar y peilot "Pan dwi'n Barod" yn Haf, 2014

BP7 Adolygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd cyflwyniad ac adroddiad ar yr adolygiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion a'r ddarpariaeth ar gyfer cyfarfod â'r anghenion hynny. Nodwyd bod y drefn bresennol yn anghyson, yn draddodiadol a chymhleth, bod diffygion o ran tracio perfformiad a chydweithio, patrymau arferion gwahanol, twf mewn anghenion penodol, yr angen i wella cyfathrebu a bod y drefn yn creu dibyniaeth

Rhoddyd sylw penodol i'r galw clir am newid gan yr holl fudd-ddeiliad a'r dewisiadau gwahanol sydd ar gael o ran cyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol. Nodwyd rhai pryderon am:-

- Gyllido'r opsiynau ac y byddai gwasanaethau eraill yn dioddef
- Y risg amlwg o recriwtio arbenigwyr yn y maes
- Yr amserlen ar gyfer gweithredu'r opsiynau ffafriol a sut y byddir yn monitro gwariant a mesur y cynllun gweithredu?
- Yr her o fynd â'r gweithlu presennol drwy'r newid

Argymhellion gan y Craffwyr

Dim argymhellion penodol ond disgwyl gweld cynigion penodol ar gyfer y newid yn ystod 2014/15

Effaith Disgwyliedig

Disgwylir y bydd y cynigion penodol yn cyfarch y diffygion a adnabuwyd yn y gwasanaeth

BP8 Adolygiad Digonedd Canolfannau Hamdden

Beth wnaeth y Craffwyr

Herio'r Aelod Cabinet, yr Uwch Reolwr Gwasanaeth a'r cwmni ymgynghorwyr a benodwyd i weithio gyda'r gwasanaeth i ystyried sut y mae modd cyfarch anghenion y dyfodol

Yn benodol trafodwyd:-

- Y cyswllt amlwg rhwng gwaith y canolfannau gyda'r Agenda Iechyd
- Y pwyslais yng ngwaith yr ymgynghorwyr ar ganfod atebion gwahanol, sydd yn addas ar gyfer sefyllfaoedd lleol unigol, ar draws strwythurau adrannol presennol a chydweithio, lle'n briodol, â mudiadau gwirfoddol
- Lleoliad y gwasanaeth o fewn strwythur y Cyngor
- Y dadleuon o blaid ac yn erbyn cynnig disgownt i aelodau staff y Cyngor

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Aelodau Cabinet Gwynedd Iach

Cefnogwyd bwriad yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach i gyflwyno'r adroddiad cyflawn i'r Fforymau Ardal ar gyfer trafodaeth leol cyn mynd ati i lunio cynllun gweithredu

Effaith Disgwyliedig

Disgwyli'r cynigion amgen gerbron fydd yn cynnig patrwm cynaliadwy o wasanaethau hamdden

BP9 Cynlluniau Grant Addasiadau i bobl ag Anableddau

Beth wnaeth y Craffwyr

Herio'r Aelod Cabinet ar weithrediad a gwariant ar gynlluniau grant addasiadau i bobl anabl gan roi sylw penodol i:-

- Lithriad yn y dangosydd perfformiad ar grantiau am fan-addasiadau
- Adborth unigolion oedd yn derbyn grantiau mewn achosion cymhleth oedd yn dangos bod 96% o'r cleientiaid yn canmol y gwaith
- Yr angen i fuddsoddi i gadw unigolion ar eu haelwydydd eu hunain
- Broblem hanesyddol yng ngweinyddiad y drefn grantiau rhwng Cartrefi Cymunedol Gwynedd a'r Cyngor; nodwyd bod hwn bellach wedi gwella
- Rai pryderon am drefniadau cynnal a chadw peiriannau sydd yn cael eu gosod mewn tai

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Aelodau Cabinet Economi

Dim argymhellion penodol

Effaith Disgwyliedig

Disgwylir gweld gwelliant pellach yn mherfformiad y Gwasanaeth ar grantiau am fan-addasiadau

BP10 Gofal Dementia

Beth wnaeth y Craffwyr

Heriwyd yr Aelod Cabinet ar y trefniadau presennol ar gyfer darparu ar gyfer unigolion efo Dementia gyda golwg penodol ar y twf tebygol yn y gofyn dros y blynyddoedd nesaf.

Rhoddwyd sylw penodol i:-

- Ddyfodol darpariaeth gofal dydd ym Mhlas Hedd, Arfon a hefyd darpariaeth ym Mlaenau Ffestiniog, yn sgil penderfyniadau gan y Bwrdd Iechyd
- Pellter darpariaeth gofal ysbaid arbenigol o rai ardaloedd yn y sir
- Yr angen am gydbwysedd gwell rhwng darpariaeth breswyl a darpariaeth yng nghartrefi unigolion

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Aelodau Cabinet Gwynedd Iach

Dim argymhellion penodol

Effaith Disgwyliedig

Edrych ymlaen i weld cynigion penodol ar gyfer darpariaeth a fydd yn galluogi'r Cyngor i gwrdd ag anghenion mwy y dyfodol

BP11 Awtistiaeth

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyn cyflwyniad ar y Sbectwm Awtistaidd. Rhoddwyd sylw penodol i:-

- Y trefniadau asesu a chyfeirio, gan roi sylw penodol hefyd i'r ddarpariaeth yn Nwyfor a De Meirionnydd
- Natur unigryw y gwasanaeth yng Ngwynedd a Môn, sydd yn llwyr ddibynnol ar Grant Llywodraeth Cymru
- Natur y cydweithio rhwng Gwynedd a Mon yn y Grwp Cynllunio ar y Cyd

Argymhellion gan y Craffwyr

Gofyn i'r Cyfarwyddwr edrych ar ariannu tymor hwy y Gwasanaeth hwn, sydd, ar hyn o bryd, yn ddibynnol ar grant

Effaith Disgwyliedig

Parhad y Gwasanaeth pwysig hwn er lles rhai sydd â'r cyflwr

BP12 Datganiad o Fwriad ar Ddarparu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Integredig

Beth wnaeth y Craffwyr

Herio'r "Datganiad o Fwriad" sydd yn cynnig fframwaith ar gyfer cydweithio rhwng y Gwasanaeth Iechyd ac Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Gogledd Cymru.

Pwysleisiwyd:-

- Pwysigrwydd sicrhau darpariaeth sydd yn rhoi ystyriaeth i ofynion ieithyddol ac anawsterau teithio mewn ardaloedd fel Gwynedd
- Yr angen i sicrhau bod modelau yn addas i'r ardal a nid yn cael eu trawsblannu o ardaloedd dmwy poblog fel De Cymru

Argymhellion gan y Craffwyr

Derbyniwyd cynnwys y Datganiad

Effaith Disgwyliedig

Gwelliant yn y cydweithio er budd trigolion

BP13 Gweledigaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol am Wasanaethau Preswyl

Beth wnaeth y Craffwyr

Cynnal sesiwn anffurfiol y tu allan i'r pwyllgor ei hun er mwyn trafod gyda'r Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr y weledigaeth ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol

Argymhellion gan y Craffwyr

Dim argymhellion ffurfiol

Effaith Disgwyliedig

Disgwylir gweld cynigion penodol ar gyfer newidiadau yn nhrefn y Gwasanaethau i wireddu'r weledigaeth

BP14 Mwy na Geiriau

Beth wnaeth y Craffwyr

Heriwyd ymateb y Cyngor i ofynion y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol – Mwy na Geiriau.

Rhoddwyd sylw penodol i:-

- Bwysigrwydd sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg yn greiddiol wrth sefydlu gwasanaethau
- Yr angen i edrych ar gyfundrefn darparwyr gofal preifat a'r her o sicrhau bod y gwasanaethau yn cydymffurfio ag anghenion ieithyddol y defnyddwyr
- Waith Grŵp Tasg mewnol sydd wedi ei sefydlu i oruchwylio cynnydd gwaith y Cyngor mewn ymateb i “Mwy Na Geiriau”
- Yr angen i sicrhau bod pobl hyn gyda chyflwr dementia yn un o flaenoriaethau'r Grwp Tasg
- Siom gyda chanlyniad awdit diweddar i ganfod faint o achosion a oedd wedi adnabod anghenion iaith
- Bwysigrwydd trefniadau hyfforddiant cadarn

Argymhellion gan y Craffwyr

(a) Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu hwn yn y flwyddyn nesaf .

(b) Cymeradwyo yn ffurfiol sefydliad y Grwp Tasg gan ychwanegu gwahoddiad i Bencampwr Iaith, i ymuno ac i wasanaethu ar y Grwp

Effaith Disgwyliedig

Disgwylir cynnydd pellach yn y ddarpariaeth y bydd modd adrodd arno yn ystod y flwyddyn

BP15 Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg

Beth wnaeth y Craffwyr

Heriwyd adroddiad perfformiad blynyddol y Gwasanaeth Addysg gan roi sylw penodol i:-

- Ystadegau'r profion darllen cenedlaethol gan roi mwy o sylw i'r iaith Saesneg
- bod yn rhaid i'r sustem tracio cynnydd drwy gydol cyfnod addysgol disgybl fod yn ddibynadwy yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3
- pryderon am ddigonolrwydd darpariaeth hyfforddiant i athrawon
- Y cydweithio rhwng GwE a 5 ysgol o ran datblygu'r Uwch Dimau Rheoli a'r rheolaeth ganol, gan nodi'r bwriad i gynnig arweiniad ar reolaeth ganol i bob ysgol flwyddyn nesaf
- Yr anhawster o gymharu safon perfformiad yn y Gymraeg yng Ngwynedd gyda'r darlun cenedlaethol oherwydd bod y Gymraeg yn cael ei drin yn wahanol i bob pwnc craidd arall
- Peth pryder ynglŷn a chystadleuaeth rhwng ysgolion i ddenu disgyblion a chategoreiddio'r ysgolion yn gyhoeddus
- Pryder ymysg ysgolion y byddai'r math o gefnogaeth a geid yn y gorffennol yn diflannu yn sgil sefydlu GwE gyda mwy o bwyslais ar herio a monitro – nodwyd bod GwE yn ymateb i'r pryder hwn

Argymhellion gan y Craffwyr

Dim argymhellion penodol ond bydd y Pwyllgor yn craffu cynnydd yn gyson, gan ddechrau gydag adroddiad yn ôl ar waith mewn ymateb i'r Ymchwiliad Craffu yn Haf 2014

Effaith Disgwyliedig

Bydd ffocws cyson yng ngwaith y Pwyllgor Craffu ar wella ansawdd addysg yn y sir, fel dilyniant naturiol i waith gwerthfawr yr Ymchwiliad Craffu yn y maes (gweler Y1 uchod)

C. Pwyllgor Craffu Cymunedau

Cadeirydd Y Cyngorydd Eric Jones
Is-Gadeirydd Y Cyngorydd Angela Russell

Cylch Gorchwyl

- Adfywio ac Economi
- Gwynedd Werdd
- Amgylchedd
- Rhwydwaith Trafnidiaeth a Chludiant Cymunedol
- Grymuso Cymunedau
- Gwastraff
- Tai
- Iaith
- Lleihau ôl-troed carbon
- Cynllun Datblygu Unedol

1. Ymchwiliadau Craffu

Bu gwaith ar ddau Ymchwiliad Craffu yn ystod y flwyddyn:

CY1 Ymchwiliad Craffu Balchder Bangor

Beth wnaeth y craffwyr

Daeth Adroddiad MORI i'r casgliad fod 3 pheth yn achosi'r pryder mwyaf i drigolion, sef:

- trwsio lonydd a phalmentydd
- strydoedd glân
- lefel troseddu

Yng Ngweithdy'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, nodwyd y materion o bryder canlynol hefyd:

- Tipio slei bach
- Baw ci
- Golygfa stryd
- Casgliadau sbwriel amserol

Sefydlwyd yr ymchwiliad, felly, i asesu llwyddiannau a diffygion cynllun Balchder Bangor a oedd yn ceisio cael canol dinas lân, taclus a diogel i ddarparu amgylchedd leol deniadol a diddorol; gan ystyried:

- Beth oedd effaith y cynllun ar bobl Bangor a Gwynedd
- A ydyw wedi gwella'r amgylchedd ym Mangor?
- A ydyw'n gynaliadwy?

Argymhellion gan y Craffwyr i'r Cyngorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd

Gweithio'n Rhagweithiol Mae cyfle nawr i Gyngor Dinas Bangor adeiladu ar y gwaith yma drwy roi arweiniad ar y ffordd ymlaen a gweithio'n fwy rhagweithiol ac anffurfiol gyda grwpiau a gwirfoddolwyr.	✓
Cynllunio Mae angen i Adran Rheoleiddio'r Cyngor roi sylw manwl ar fyrder i ganfyddiad a phryderon yn ymwneud â datblygiadau llety amldeiliadaeth anaddas mewn nfier o leoliadau ar draws y Ddinas.	✓
Cymuned Mae angen i swyddogion yr Adran Economi a Chymuned adeiladu ar y gwaith rhagweithiol effeithiol a waned fgan Reolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd a Chydlynnydd Balchder Bangor i gefnogi'r cymunedau a'r grwpiau o ddiddordeb drwy weithio'n fwy anffurfiol gyda hwy.	✓
Cydweithio'n Effeithiol Argymhellir bod yr Uned Gwasanaethau Stryd yn ehangu'r arddull yma o gydweithio gyda phartneriaid yn lleol ar draws y Sir fel bod adnoddau'n caniatáu.	✓
Arweiniad Lleol Argymhellir bod y Cyngor yn annog yr ardaloedd eu hunain i gymryd y blaen ac yna'n dethol yn ofalus cyn defnyddio adnoddau prin i gydweithio mewn ardaloedd lleol.	✓
Cyswllt Lleol Mae angen hybu Cynghorau Cymuned (neu grŵp o gynghorau cymuned) i weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhannu Gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Gwynedd yn lleol.	✓
Ysgolion Argymhellir bod yr Adran Addysg yn gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Stryd i adnabod enghreifftiau o arfer da ymysg yr ysgolion sy'n hyrwyddo balchder dinesig gan roi cyhoeddusrwydd i'r gwaith.	✓
Gwella Gwasanaethau Mae aelodau'r Pwyllgor Craffu yn annog aelodau'r Cabinet i gydweithio'n gyson gyda chymunedau ar draws y sir er mwyn cynnal ansawdd a gwella gwasanaethau mewn cyfnod heriol.	✓

Effaith Disgwyliedig

Gan fod yr argymhellion oll wedi eu derbyn gan yr Aelod Cabinet, disgwylir adroddiad yn ôl i gyfarfod Medi 2014 yn adrodd cynnydd ar yr argymhellion hyn.

CY2 Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg Ôl-16 (parhau)

Beth mae'r craffwyr wedi ei gyflawni hyd yma

Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu i weithio ar friff a gytunwyd gyda'r Aelod Cabinet Addysg i ystyried:

- Sut y gweithredir Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach
- Effaith gweithredu'r Polisi Cludiant Addysg Ôl-16 ar ddarparwyr addysg ôl-16, dysgwyr a'u teuluoedd

Disgwylir iddo adrodd yn ôl yn Rhagfyr 2014.

2. Gwaith y Pwyllgor

Nodir isod y materion sydd wedi eu trafod yn y chwe cyfarfod pwyllgor yn ystod 2013/14.

CP1. Canol Trefi

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyn a herio adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio, gan wyntyllu rhai problemau ac anawsterau a wynebir yng nghanol trefi'r sir. Rhoddwyd sylw penodol i:

- Fanteision ac anfanteision cerdyn teyrngarwch
- Yr angen i ddenu mwy o fasnachwyr, sydd heb gysylltiad uniongyrchol efo'r stryd fawr i fod yn rhan o'r Siambr Fasnach
- Yr angen i roi sylw manwl i'r siopau gwag ar y stryd fawr a defnydd amgen ohonynt
- Yr angen i ddatblygu grwpiau busnes lleol fel bod y gwaith yn dod o fewn y gymuned
- Y ffaith fod y problemau'n ymestyn y tu hwnt i siopau i fusnesau eraill fel tafarndai a gwestai
- Bod costau parcio uchel yn cadw pobl o'r trefi, ond y byddai cerdyn teyrngarwch ar gyfer lleihau costau parcio'n fantais gyffredinol
- Yr angen am bolisi prynu'n lleol

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion penodol gan y Craffwyr i'r Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio.

Effaith Disgwyliedig

Tynnwyd sylw at nifer o feysydd lle mae angen rhoi ystyriaeth iddynt fel rhan o'r cynllun canol trefi.

CP2. Hostel Noddfa, Deiniolen

Beth wnaeth y Craffwyr

Gwnaethpwyd cais am adroddiad craffu i'r maes digartrefedd yn dilyn trafodaeth o'r hosteli i bobl ddigartref gan ystyried y trefniadau sydd mewn lle i gynorthwyo'r awdurdod i gwrdd â'i gyfrifoldebau statudol.

Yn sgil hynny, cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio ar Hostel Noddfa, Deiniolen, a rhoddwyd sylw i'r materion canlynol:

- Bod cyflwr adeilad Hostel Noddfa, Deiniolen wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda rhai yn gwrthod mynd yno
- Bod darparu ar gyfer y digartref yn un o gyfrifoldebau statudol y Cyngor ac na ellir cau'r hostel yn ddifeddwl
- Tyndra posib wrth geisio cyfarch yr angen am wasanaeth gwahanol o fewn yr un uned a bod angen ystyried os mai hostel yw'r ffordd orau o ymateb i anghenion pawb
- Bod gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd rai tai gwag allasai fod yn addas ar gyfer teuluoedd bregus.

Rhoddwyd cyfle hefyd i'r aelod lleol i gyflwyno sylwadau, a mynegodd:

- Bod angen ystyried a yw Deiniolen yn leoliad addas ar gyfer Hostel
- Bod angen i'r defnyddwyr fod o fewn cyrraedd i wasanaethau pwysig, a chyfyd hyn gwestiwn ynglŷn ag addasrwydd lleoli hostel yn Neiniolen
- Bod lleoliad yr Hostel yn effeithio ar amser ymateb yr heddlu i ddigwyddiadau

Argymhellion

Cytunwyd ar y camau canlynol:

- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i fod yn rhan o drafodaethau pellach ar y mater.
- Aelod Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cytuno gyda'r bwriad o gynnal ymchwiliad manwl fyddai'n rhoi ystyriaeth i anghenion pobl ddigartref, a'r ffordd ymlaen o safbwynt y gwasanaeth.

Effaith Disgwyliedig

O gynnal Ymchwiliad Craffu yn 2014/15, gobeithir gallu cyflwyno argymhellion i'r Aelod Cabinet fyddai'n gwella ansawdd ac addasrwydd y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r digartref yng Ngwynedd.

CP3. Cydlynu, Cynllunio a Darparu Gwasanaethau Cludiant – Ymateb i Argymhellion Craffu

Beth wnaeth y Craffwyr

Yn ystod 2012/13, roedd y Pwyllgor Craffu wedi cyflwyno'r argymhellion canlynol i'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Aelod Cabinet Addysg:

- Cysoni lefel y gefnogaeth o fewn y sir i hwyluso mynediad i gyrsiau sy'n cael eu cynnig i fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau mewn ysgol Uwchradd neu Goleg Addysg Bellach fesul ardal
- Gwella cefnogaeth cymharol er mwyn lleihau cost y Tocyn Teithio Blynyddol i fyfyrwyr yng Ngwynedd
- Ymestyn cyfnod talu am docyn tymor i 6 wythnos
- Caniatáu dulliau gwahanol o dalu am docyn tymor
- Ymestyn cyfnod yr amseroedd a'r dyddiau y gellir defnyddio'r tocyn tymor
- Lle bo galw uchel, rheolaidd a chyson am wasanaeth, trafod gyda'r darparwyr i redeg dau gerbyd i ateb y galw
- Darpariaeth gyson ar gyfer elfennau galwedigaethol rhai cyrsiau ar amseroedd hwyrach gyda'r nos
- Rhoi sylw penodol i ddiogelwch ac ansawdd y cerbydau

Cyflwynwyd ymateb yr Aelod cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Rheoleiddio i'r sylwadau a'r argymhellion uchod, a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan yr Uned Cludiant Integredig.

Rhodddwyd sylw i'r materion canlynol yng nghyd-destun trafndiaeth addysg yn benodol:

- Bod anhyblygrwydd yn y ddarpariaeth cludiant ôl-16
- Bod yr anhyblygrwydd yn y ddarpariaeth cludiant yn arwain at dalu am y cludiant ddwywaith, ac felly nid yw'n werth am arian
- Bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r cytundebau rhwng y Cyngor a'r cwmnïau bysiau
- Bod y polisi yn gymhleth
- Bod cyfran helaeth o'r lwfans cynhaliaeth addysg o £30 yr wythnos sy'n cael ei ryddhau i deuluoedd incwm isel, yn gorfod cael ei wario ar gludiant yn hytrach nag ar adnoddau

Argymhellion

Mewn ymateb i'r argymhellion uchod, cytunwyd ar y camau canlynol:

- Anfon llythyr at reolwyr gwasanaethau dysgwyr Safle Menai, Bangor a Safle Pwllheli yn galw am atebiad buan i gais yr Adran Addysg am wybodaeth.
- Rhaglen waith yr Uned Trafnidiaeth i gyfarch y gwelliannau fydd yn sail i ddarparu gwasanaethau cludiant effeithiol ac effeithlon yn y Sir
- Cludiant i'w gynnwys fel mater er ystyriaeth yn y Gweithdy Blynyddol Craffu.
- Cymeradwywyd sgôp Ymchwiliad Craffu Cludiant Ôl 16 (Gweler CY2 uchod).

Effaith Disgwyliedig

Darpariaeth gwasanaethau cludiant effeithiol ac effeithlon yn y Sir.

CP4. Darpariaeth Rhandroedd Cyngor Gwynedd

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach a rhoddwyd sylw i'r materion canlynol:

- Nad oedd strwythur penodol i'r ddarpariaeth rhandroedd ar hyn o bryd a bod gwaith mapio yn mynd rhagddo er mwyn adnabod safleoedd presennol; gyda'r bwriad o greu tudalen ar wefan y Cyngor yn amlygu'r broses a nodi pwynt cyswllt
- Bwriad y Cyngor i roi cefnogaeth strategol i bobl sefydlu rhandroedd yn cynnwys amlygu pa grantiau sydd ar gael i sefydlu rhandir a hwyluso'r broses o sefydlu rhandroedd
- Bod angen sefydlu rhandroedd mewn ysgolion gan gynnwys y gymuned leol yn y broses er mwyn cryfhau'r cyswllt cymunedol
- Bod angen edrych ar gydweithio gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd a mudiadau trydydd sector a chymdeithasau lleol
- Bod angen darganfod tir addas sydd o ansawdd ar gyfer sefydlu rhandroedd i sicrhau eu bod yn ffynnu.

Argymhellion

Cyflwynwyd yr argymhellion canlynol i'r Aelod Cabinet:

- Bod angen ymgymryd â'r gwaith o fapio lleoliadau addas ar fyrder ac i gynnwys asesiad o raddio'r tir fel rhan o'r gwaith
- Bod y Rheolwr Byw'n Iach yn:
 - hyrwyddo'r wybodaeth am y person cyswllt sy'n cefnogi rhandroedd o fewn y Cyngor yn eang
 - Y person cyswllt i ddelio gyda'r Uned Eiddo ar ran y Cwsmer (grŵp allanol) ac i gadw'r broses yn syml i'r grŵp
 - Aelod Cabinet i gadw trosolwg i sicrhau rhediad esmwyth y ceisiadau a phrosesu ceisiadau'n brydlon.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i hybu unigolion, teuluoedd a grwpiau i 'wneud y pethau bychain' fel tyfu ychydig o lysiau mewn lleoliadau bychain sy'n cynnig eu hunain
- Gweithio gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd a phartneriaid eraill i gefnogi tenantiaid a grwpiau cymunedol i ddatblygu llecynnau posibl i dyfu llysiâu.

Effaith Disgwyliedig

Yn sgil ei graffu a'r trafod arno, disgwylir y caiff rhagor o randiroedd eu sefydlu er budd trigolion Gwynedd.

CP5. Cynllun Nofio Am Ddim

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach a rhoddwyd sylw i'r materion canlynol:

- Bod tuedd perfformiad Gwynedd ar gyfer y cynllun Nofio am Ddim plant 16 oed ac iau wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru hyd at 2011/12, ac yn gyson is na chyfartaledd Cymru ar gyfer yr oedran 60 oed ac uwch.
- Bod polisi mynediad pyllau nofio Gwynedd yn nodi fod angen i blant o dan 8 oed fod o dan oruchwyliaeth rhiant neu warcheidwad er mwyn mynychu'r pyllau, a bellach yn sgil yr angen i wneud arbedion, na chaniateir i rieni fynychu'r pyllau nofio am ddim
- Amlinelliad o'r rhaglen craidd Nofio am Ddim ar gyfer 2013/14
- Nad oedd y cynllun Nofio am Ddim, Llywodraeth Cymru yn cyfarch ffactorau megis incwm nac anabledd

Rhoddwyd sylw hefyd i gynlluniau pellach yr Adran gan ddefnyddio rhan o'r arian Grant Cynllun Nofio am Ddim er mwyn cael yr effaith gorau posibl ar allu plant a phobl ifanc i nofio drwy:

- Ffôn ansawdd gwersi nofio a ddarperir gan y Cyngor
- Targedu plant sydd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig gyda gwersi nofio am ddim ychwanegol
- Cynnig tair gala nofio cymunedol ar gyfer plant Gwynedd allu cael profiad o nofio mewn awyrgylch cystadleuol ac fel rhan o dimau nofio lleol
- Gwella gwybodaeth am argaeledd y sesiynau nofio am ddim ledled y sir.

Argymhellion

Nodwyd yr angen i edrych ar strwythur ffioedd nofio gydag ystyriaeth penodol i incwm aelwydydd ac anabledd.

Effaith Disgwyliedig

Rhagor o blant a theuluoedd yn gallu manteisio ar y cynllun Nofio am Ddim, a gwelliant yn ansawdd gwersi nofio a nifer plant sydd yn gallu nofio.

CP6. Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd, adroddiad blynyddol Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd, a rhoddwyd sylw penodol i'r ffactorau canlynol:

- Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig
- Gwaith buddsoddi safon Ansawdd Tai Cymru
- Trefniadau ymgynghori gyda'r tenantiaid
- Goblygiadau dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai);
- Protocol Aelodau Etholedig
- Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai sy'n strategol bwysig
- Materion gweithredol eraill

Yn ogystal, rhoddwyd sylw i:

- Safon ac ansawdd y gwaith o adnewyddu'r stoc dai
- Effaith y newidiadau i'r drefn budd-daliadau
- Datblygiadau tai newydd
- Ymrwymiad gan contractwyr i gyflogi pobl leol, a'r Gronfa Budd Cymunedol

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Craffwyr i Gartrefi Cymunedol Gwynedd.

Effaith Disgwyliedig

Ansawdd stoc tai Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn parhau i wella, a phob cyfle yn cael ei gymryd i gyflogi pobl leol gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd a phob contractwr a gytundebir â hwy.

CP7. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân gan roi sylw penodol i 3 amcan gwella'r gwasanaeth ar gyfer 2014/15, sef:

- Helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol yn y cartref
- Sicrhau fod Gogledd Cymru yn derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf o fewn cyfyngiadau ariannol, defnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli er mwyn gwneud y gorau i'r ddarpariaeth tân ac achub yn yr ardal
- Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol.

Yn ogystal, rhoddwyd sylw i:

- Fuddsoddiad sylweddol y gwasanaeth yn y gwaith o atal tanau
- Ddyfodol gorsafoddd tân mewn cymunedau gwledig.

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Craffwyr i'r Prif Swyddog Tân a Chadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Effaith Disgwyliedig

Parhad y gwasanaeth allweddol hwn a'r holl ymdrechion i atal tanau er mwyn diogelu'r cyhoedd a phobl sy'n agored i niwed.

CP8. Y Gyfundrefn Parcio yng Ngwynedd

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd adroddiad yr Aelod Cabinet ar y gyfundrefn parcio yng Ngwynedd.

Rhodddwyd sylw penodol i:

- gysondeb ffioedd
- pennu ffioedd
- adolygiad y ffioedd
- parcio Nadolig
- ymgynghori
- yr adolygiad parcio

Rhannwyd hefyd Bapur Trafod Parcio gyda'r Craffwyr.

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion penodol gan y Craffwyr i'r Cyngorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd, ond gofynnwyd i'r Aelod Cabinet ddychwelyd gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau i roi cyfle iddynt ystyried yr opsiynau terfynol yn sgil cwblhau'r gwaith o gynnal adolygiad o nifer o faterion yn ymwneud â pharcio.

Effaith Disgwyliedig

O gael ei graffu, disgwylir i'r opsiynau terfynol a gyflwynir arwain at ragor o gydweithio gyda chymunedau lleol.

CP9. Y Bil Cynllunio (Cymru) Drafft a Chynllunio Cadarnhaol: Cynigion i Ddiwygio'r System Gynllunio yng Nghymru

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd cyflwyniad yr Aelod Cabinet gan roi sylw i'r materion canlynol:

- Bod pryder y bydd hawliau'n cael eu canoli mewn perthynas â datblygiadau mawr gydag awdurdodau lleol yn colli'r hawl i gael unrhyw fewnbwn gan danseilio democratiaeth leol
- Nad oes trothwyon clir wedi eu gosod hyd yma parthed datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd
- Bod pryder y byddai rhai pwerau'n aros yn Llundain yn hytrach na chael eu trosglwyddo i Gaerdydd
- Byddai'n dderbyniol i awgrymiadau gael eu gwneud gan y Llywodraeth ond bod angen hyblygrwydd fel y byddai'r penderfyniadau'n cael eu cymryd yn lleol
- Na ddylid anwybyddu'r sylw a roddir i'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd a ledled Cymru wrth ystyried ceisiadau cynllunio gan ddefnyddio'r cyfrifiad oedd yn dangos lleihad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg fel ffactor gynllunio bwysig
- Er na fyddai uno'n rhesymol, gellid gweithio mwy gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Bod angen hysbysebu ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad penodol hyd yn oed os yw'r dulliau o hysbysebu'n newid. Nododd y pwyllgor gefnogaeth i'r egwyddor o hysbysebu dull arwydd bost yn hytrach na chyhoeddi manylion yn llawn

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion penodol gan y Craffwyr i'r Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet Cynllunio, ond gofynnwyd i'r Aelod Cabinet bwysleisio y dylid defnyddio'r Cyfrifiad, oedd yn dangos lleihad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg fel tystiolaeth i geisio sicrhau cydnabyddiaeth statudol i'r iaith Gymraeg fel ffactor cynllunio yn y ddeddfwriaeth newydd fel rhan o ymateb y Cyngor ar y Bil Cynllunio Drafft i Lywodraeth Cymru.

Effaith Disgwyliedig

O gael ei graffu, bu i'r Aelod Cabinet gynnwys sylwadau'r Craffwyr fel rhan o ymateb y Cyngor i'r Bil Cynllunio Drafft.

CP10. Cytundeb Gwaredu Gwastraff Gweddilliol

- i.) Ail Gytundeb Rhwng y Pum Cyngor
- ii.) Dewis Ymgymwrwr i Gyflawni'r Gwasanaeth (Cau Allan y wasg a'r Cyhoedd)

Beth wnaeth y Craffwyr

i.) Ail Gytundeb Rhwng y Pum Cyngor
Derbyniwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dilwyn Owen Williams. Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol:

- Gweithwyr lleol fyddai'n gweithio mewn pwynt canolog fyddai'n rhedeg fel safle drosglwyddo'r gwastraff gweddilliol gyda'r gwastraff gweddilliol yn cael ei gludo oddi yno i'r man lle byddai cyfleuster i ymdrin a'r gwastraff
- Bydd y prif gostau yn gysylltiedig a rhedeg y sefydliad ei hun, a fydd y tu hwnt i ffiniau Gwynedd
- Ar derfyn y cytundeb, fyddai'n ymestyn dros 25 mlynedd, gellid dadgomisiynu'r safle gyda'r partneriaid yn rhannu'r gost. Byddai'r trefniadau'n amrywio pe byddai'r safle'n parhau'n weithredol;
- Bod gan y cyfleuster y capasiti ar gyfer ymdrin a chynnydd yn y gwastraff gweddilliol a bod angen pwyso a mesur risgiau, ond bod angen gwyrddroad sylweddol cyn y byddai'r gwastraff yn lleihau
- Bod y cyfleuster wedi ei ddylunio i barhau am 60 mlynedd a byddai modd ymestyn y cytundeb ar derfyn y 25 mlynedd wreiddiol
- Bod camau wedi eu cymryd i sicrhau safonau sy'n mynd hyd yn oed ymhellach na gofynion yr Asiantaeth Gwarchod Iechyd
- Bydd defnydd yn cael ei wneud o'r gweddillion yn dilyn y broses o losgi'r gwastraff gweddilliol gan gyfrannu tua 7% tuag at lefel ailgylchu'r awdurdodau
- Ni fydd unrhyw wastraff niweidiol yn cael ei waredu yn y cyfleuster.

ii.) Dewis Ymgwymerwr i Gyflawni'r Gwasanaeth (Dylid nodi bod yr eitem hon wedi bod yn trafod materion eithriedig, ac felly caewyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth).

Derbyniwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dilwyn Owen Williams. Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol:

- Bod trefn safonol wedi ei ddilyn i gyrraedd y sefyllfa bresennol
- Y ffaith mai dim ond dau gwmni gafodd eu gwahodd i gynnig tendrau terfynol gydag un yn tynnu'n ôl wedyn. Pwysleisiwyd bod ystyriaeth ddwys a thrylwyr wedi ei roi gan y Cydbwyllgor p'un ai i fynd ymlaen gydag un cwmni ai peidio, ond penderfynwyd parhau gan wahodd tendr terfynol gan un cwmni, mater oedd yn achosi pryder i'r Craffwyr.

Argymhellion

Bod y Cabinet yn derbyn ail gytundeb rhwng yr awdurdodau fel y gellir parhau gyda'r prosiect cydweithio.

Bod y Craffwyr yn datgan eu cefnogaeth i'r Bartneriaeth, sy'n cynnwys chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru, a bod ffydd ganddynt yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth mewn perthynas a chomisiynu ymgwymerwr i ymdrin a gwastraff gweddilliol y cynghorau.

Bod y Craffwyr yn datgan eu bod yn anghyfforddus mai dim ond un cwmni a wahoddwyd i gyflwyno tendr terfynol, ond eu bod yn derbyn fod yn rhaid symud ymlaen ar sail argymhelliad y Cydbwyllgor.

Effaith Disgwyliedig

Symud ymlaen i sefydlu a gweithredu trefniadau amgen ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol.

CP11. Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn)

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyniwyd adroddiad gan Reolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd yn unol ag adrannau 19 ac 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.

Rhoddwyd sylw penodol i:

- Ddyletswyddau statudol y Bartneriaeth
- Rhesymoli Partneriaethau Gwynedd a Môn
- Gostyngiad o 14% mewn troseddau a gofnodwyd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2010/11-2012/13
- Blaenoriaethau Cynllun Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru
- Prif weithgareddau ar gyfer ymateb i'r blaenoriaethau
- Prif gerrig milltir a chymau gweithredu

Rhoddwyd sylw hefyd i rai prosiectau a oedd yn cael eu cynnal yn y gymuned ac yn enghreifftiau da o gydweithio effeithiol ymysg asiantaethau:

- Cynllun Integredig Rheoli Troseddwr (risg uchel)
- Cynllun 'Phoenix' Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer ieuenctid
- Cynllun ar y cyd gan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru i ymdrin ag adeiladau gwag, busnesau a phobl fregus
- Cynllun MARAC (Multi Agency Risk Assessment Conference) yn benodol ar gyfer trais yn y cartref
- Gwasanaeth Tîm Troseddu Ieuenctid

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Craffwyr.

Effaith Disgwyliedig

Cynnydd yn ymwybyddiaeth y Craffwyr o waith a phwrpas Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd.

CP12. Cyflwyniad Comisiynydd yr Heddlu (Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn)

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyniwyd cyflwyniad gan Gomisiynydd yr Heddlu ar ddrafft ymgynghorol o Gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys 4 prif amcan y Comisiynydd ar gyfer y cynllun newydd, sef:

- atal trosedd
- darparu ymateb priodol
- lleihau niwed a'r risg o niwed
- adeiladu partneriaethau effeithiol

Yn ogystal, rhoddwyd sylw penodol i:

- flaenoriaethau'r Cyngor mewn perthynas â gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu
- gynlluniau'r Comisiynydd ar gyfer plismona yng nghefn gwlad a chynyddu nifer o blismyn ar y stryd

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Craffwyr i Gomisiynydd yr Heddlu.

Effaith Disgwyliedig

Parhad y gwasanaeth allweddol hwn a'r holl gynlluniau ar gyfer plismona ac atal troseddau.

CP13. Cyflwyniad Canolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru (Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn)

Beth wnaeth y Craffwyr

Derbyniwyd cyflwyniad gan Bennaeth Canolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru. Rhannwyd gwybodaeth am waith y Ganolfan ynghyd â rhai astudiaethau achos o'r mathau o alwadau amhriodol y maent yn eu derbyn. Trefnwyd i ddirprwyaeth o'r Pwyllgor ymweld â'r Ganolfan Gyfathrebiadau er mwyn deall mwy am eu gwaith.

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Craffwyr.

Effaith Disgwyliedig

Cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith a phwrpas Canolfan Gyfathrebiadau Heddlu Gogledd Cymru.

CP14. Matrics Cludiant Cyhoeddus

Beth wnaeth y Craffwyr

Ystyriwyd adroddiad yr Aelod Cabinet ar briodoldeb y matrics cludiant cyhoeddus fel modd i ddylanwadu ar fuddsoddiad y Cyngor yn y gwasanaethau cludiant. Rhoddwyd sylw penodol i brif ffactorau'r matrics â'r pwysau gwahanol a roir iddynt, sef:

- cost fesul teithiwr
- y llwybr/ardal a wasanaethir
- niferoedd teithwyr
- dewisiadau teithio eraill
- math o wasanaeth – dydd/nos/penwythnos; a
- mynediad i wasanaethau

Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion gan y Craffwyr i'r Cynghorydd Gareth Roberts, yr Aelod Cabinet Amgylchedd. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelod Cabinet ystyried cynnull Grŵp Tasg i ystyried y matrics cludiant cyhoeddus mewn rhagor o fanylder..

Effaith Disgwyliedig

Nodwyd pryder ynglŷn â'r posibilrwydd y caiff y matrics cludiant cyhoeddus ei ddefnyddio fel teclyn ar gyfer torri'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus.

